

Cyngor Cymuned Llandwrog

Polisi Defnyddio'r Rhyngrwyd, E-bost a Chyfringau Cymdeithasol

Mabwysiadwyd : 27 Gorffennaf 2020 Cofnod : 20-07b-12

Mae'r dyfeisiau'n cael eu rhentu gan y Cyngor a'u benthycu i gynghorwyr am eu cyfnod fel aelod o'r Cyngor.

Os bydd Cynghorydd yn ymddeol neu'n cael ei ddad-ddethol rhaid dychwelyd ei ddyfais ar unwaith i'r rheolwr.

Mae'r dyfeisiau'n cael eu cyflenwi gyda'r holl apiau a rhaglenni sy'n ofynnol wedi'u llwytho ymlaen llaw, rhaid i unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau gael eu gwneud gan neu gyda chaniatâd Whitten Computers.

Yn ystod cyfnod y benthyciad mae'r aelod yn gyfrifol am ddiogelwch a diogelwch unrhyw ddyfeisiau a fenthycwyd, rhaid iddynt sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd anawdurdodedig, dileu defnydd anfwriadol a chadw'r dyfeisiau'n ddiogel.

Os bydd unrhyw ddyfeisiad yn cael ei golli neu ei ddwyn, rhaid rhoi gwybod i'r rheolwr am y digwyddiad ar unwaith.

Bydd risgiau cynhenid ynghlwm wrth unrhyw gyfathrebu a wneir trwy gyfrwng e-byst/rhyngrwyd yn enw'r Cyngor neu ar systemau'r Cyngor, risgiau megis:

- Y posibilrwydd o enllibio
- Ymledu firysau, gan gynnwys *Trojans* sy'n gallu cymryd data
- Torri amodau cyfrinachedd
- Derbyn ffeiliau o ffynonellau mewn ystafelloedd sgwrsio ar-lein sy'n gallu osgoi muriau gwarchod, neu hidlwyr e-byst.
- Torri amodau contract
- Torri amodau hawlfraint
- Mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data
- Torri amodau preifatrwydd a gwahaniaethu anghyfreithlon

Mae'r polisi hwn yn gosod allan y cyfyngiadau wrth ddefnyddio offer electronig y Cyngor (cyfrifiaduron)

Ceidw'r Cyngor yr hawl i fonitro'r defnydd a wneir o e-bost a'r rhyngrwyd yn unol â'r gyfraith, yn fwyaf penodol Deddf Diogelu Data 1998 a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae'r Cyngor yn darparu ffonau, e-bost a mynediad i'r rhyngrwyd at y dibenion sy'n angenrheidiol ar gyfer perfformio a chyflawni cyfrifoldebau'r swydd yn unig.

Caniateir defnyddio cyfrifiadur ac e-bost y Cyngor at ddibenion personol, o bryd i'w gilydd ac o fewn rheswm, cyn belled nad yw hynny'n amharu ar berfformiad gwaith na diogelwch.

Monitro ac Ystyriaethau Preifatrwydd

Mae'n bosib y bydd y defnydd a wneir o'r rhyngrwyd a'r e-bost yn cael ei fonitro o bryd i'w gilydd er mwyn adnabod unrhyw achosion posibl o dorri amodau'r Polisi hwn. Gallai hynny arwain at gamau disgyblu ffurfiol. Dylai'r cyflogeion nodi y gallai achosion difrifol o fynd yn groes i'r Polisi arwain at ddiswyddo am gamymddwyn difrifol.

Fodd bynnag, y mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i Erthygl 8 y Ddeddf Hawliau Dynol, ac mae hynny'n golygu y bydd y Cyngor yn parchu bywyd preifat a theuluol y gweithiwr.

Y drefn gydag e-byst

Rhaid i bob cyflogai ac aelod ddilyn y drefn a nodir isod wrth anfon a derbyn e-byst ar ran y Cyngor:

- Dim ond llofnodion e-byst cytunedig ddylid eu defnyddio
- Rhaid i bob neges ddefnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer busnes
- Rhaid cynnwys diheuriad (*disclaimer*) ar gynffon pob neges e-bost
- Gwaherddir yn llwyr gylchredeg unrhyw ddeunydd sarhaus, anwedus neu anllad, neu unrhyw beth sy'n groes i'r Polisi Cyfleoedd Cyfartal
- Ni ddylid datgelu unrhyw ddeunydd cyfrinachol
- Dim ond atodiadau o ffynonellau dibynadwy y caniateir eu lawrlwytho
- Gwneud yn siwr fod cyfeiriad y derbynnydd yn gywir cyn anfon e-bost
- Gwneud yn siwr fod defnyddio 'ymateb i bawb/*reply to all*' yn briodol
- Gwneud yn siwr fod ffeiliau hanfodol yn cael eu harbed cyn dileu'r neges y'u derbyniwyd ynddi.

Y drefn wrth ddefnyddio'r ffôn

Rhaid i bob cyflogai ddefnyddio'r drefn a nodir isod wrth ddefnyddio ffôn ar ran y Cyngor:

- Atebwch bob galwad drwy ddweud enw'r Cyngor
- Byddwch yn gwrtais bob amser
- Peidiwch â bod yn anghwrtais nac yn swta gyda phobl sy'n galw
- Peidiwch â defnyddio iaith sarhaus
- Peidiwch â rhegi
- Edrychwch ar y ffôn yn aml i weld pwy sydd wedi ffonio ac ymateb yn amserol iddynt

Ymddygiad annerbyniol ar y rhyngrwyd

Rhestrir isod enghreifftiau o'r hyn sy'n ddefnydd neu'n ymddygiad annerbyniol, ym marn y Cyngor, gan gyflogeion ac aelodau:

- Caniatáu i ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u hawdurdodi i gael mynediad at y rhyngrwyd trwy ddefnyddio manylion mewngofnodi'r cyflogeion neu'r aelodau, neu tra bônt wedi mewngofnodi
- Ymweld â gwefannau sy'n cynnwys deunydd anllad, atgas, pornograffig neu ddeunydd anghyfreithlon o fath arall

- Pasio deunydd o'r fath ymlaen at bobl allanol
- Defnyddio'r cyfrifiadur i gyflawni twyll o unrhyw fath neu i ladrata meddalwedd, ffilm neu gerddoriaeth
- Defnyddio'r rhyngwrwyd i anfon deunydd sy'n sarhau defnyddwyr eraill neu'n aflonyddu arnynt
- Lawrlwytho meddalwedd fasnachol, neu unrhyw ddeunydd sydd â hawlfraint, sy'n eiddo i unrhyw drydydd parti, oni bai fod lawrlwytho deunydd o'r fath wedi'i gynnwys neu'i ganiatáu o dan gytundeb masnachol neu unrhyw drwydded arall o'r fath
- Hacio i feysydd anawdurdodedig
- Cyhoeddi deunydd diffrïol a/neu ddeunydd y gwyddys ei fod yn ffug am y Cyngor, ei gyflogeion, aelodau, cydweithwyr a/neu gwsmeriaid ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, 'blogiau' (siwrnalau ar-lein), 'wikis' ac unrhyw ffurf o gyhoeddi ar-lein
- Ymgymryd yn fwriadol â gweithgareddau sy'n gwastraffu ymdrechion y staff neu'r rhwydwaith o adnoddau
- Cyflwyno unrhyw fath o feddalwedd faleisus i'r rhwydwaith corfforaethol
- Gamblo ar-lein
- Datgelu unrhyw wybodaeth gorfforaethol gyfrinachol heb gydsyniad penodol
- Unrhyw faes arall a allai, yn nhyb rhesymol y Cyngor, beri problemau

Cyfyngau Cymdeithasol

1. Datganiad polisi

1.1. Bwriad yr adran hon o'r polisi yw helpu cyflogeion ac aelodau etholedig i wneud penderfyniadau priodol ynghylch y defnydd o gyfyngau cymdeithasol megis gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, fforymau, byrddau negeseuon, blogiau neu sylwadau ar we-erthyglau, fel Twitter, Facebook a LinkedIn.

1.2. Yn y polisi hwn, amlinellir y safonau y mae'r Cyngor yn gofyn i gyflogeion ac aelodau etholedig lynu wrthynt pan fônt yn defnyddio cyfyngau cymdeithasol, o dan ba amgylchiadau y caiff eich defnydd o gyfyngau cymdeithasol ei fonitro, a'r camau a gaiff eu cymryd os eir yn groes i'r polisi hwn.

2. Cwmpas y polisi

2.1. Disgwylir i bob cyflogai ac aelod etholedig gydymffurfio â'r polisi hwn bob amser er mwyn gwarchod preifatrwydd, cyfrinachedd a buddiannau'r Cyngor.

2.2. Os yw cyflogai'n mynd yn groes i'r polisi, mae'n bosib ymdrin â hynny o dan ein Trefn Ddisgyblu ac, mewn achosion difrifol, gellid ymdrin â'r mater fel camymddwyn difrifol gan arwain at ddiswyddo diannod.

2.3. Os yw aelodau etholedig yn gweithredu'n groes i'r polisi, ymdrinnir â hynny o dan y Côd Ymddygiad.

3. Cyfrifoldeb am weithredu'r polisi

3.1. Y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r polisi hwn mewn modd effeithiol.

3.2. Y Rheolwr sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu gweithrediad y polisi hwn ac am argymhell newidiadau i gyfyngu ar unrhyw risgiau i'n gwaith.

3.3. Dylai pob cyflogai ac aelod etholedig sicrhau eu bod yn rhoi o'u hamser i ddarllen a deall y polisi hwn. Dylid hysbysu Rheolwr neu Gadeirydd y Cyngor o unrhyw achos o weithredu'n groes i'r polisi.

3.4. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau am gynnwys neu weithrediad y polisi hwn at y Rheolwr.

4. Defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Cyngor

4.1. Caniateir i'r Rheolwr bostio deunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol yn enw'r Cyngor ac ar ei ran, yn unol â rheolau a chwmpas y polisi hwn.

4.2. Os ydych chi'n ansicr ynghylch priodoldeb eich sylwadau, holwch y Rheolwr cyn eu postio ar wefan.

5. Defnyddio cyfryngau cymdeithasol

5.1. Sylweddola'r Cyngor bwysigrwydd y rhyngrwyd o ran siapio barn y cyhoedd am y Cyngor a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i'r gymuned. Y mae hefyd yn sylweddoli ei bod yn bwysig i'n cyflogeion a'n haelodau etholedig ymuno a helpu i siapio'r sgwrs gymunedol a rhoi cyfeiriad, trwy ryngweithio ar gyfryngau cymdeithasol.

a) Cyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw fater a allai amharu ar fuddiannau'r Cyngor, mae'n rhaid i chi fod wedi darllen a deall y polisi hwn, a;

b) Mae'n rhaid i gyflogeion fod wedi derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr.

6. Rheolau ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol

Pryd bynnag y caniateir i chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn unol â'r polisi hwn, mae'n rhaid i chi lynu wrth y rheolau cyffredinol a ganlyn:

6.1. Peidiwch ag uwchlwytho na phostio cynnwys o natur ymosodol, anllad, gwahaniaethol, annifyr, difriol nac enllibus nac ychwaith anfon dolen ymlaen at ddeunydd o'r fath.

6.2. Dylai unrhyw gyflogai/aelod etholedig roi gwybod i'r Rheolwr os ydynt yn teimlo eu bod wedi cael eu harasio, eu bwlio neu'u sarhau gan ddeunydd y mae cydweithiwr wedi'i bostio neu'i uwchlwytho i wefan cyfryngau cymdeithasol.

- 6.3. Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth sensitif, bersonol, breifat na chyfrinachol. Os ydych chi'n ansicr p'un ai yw'r wybodaeth yr ydych yn dymuno ei rhannu yn syrthio i un o'r categorïau hyn ai peidio, dylech drafod hynny gyda'r Rheolwr neu'r Maer.
- 6.4. Peidiwch ag uwchlwytho, postio nac anfon ymlaen unrhyw gynnwys sy'n eiddo i wefan drydydd parti oni bai eich bod wedi cael cydsyniad y trydydd parti i wneud hynny.
- 6.5. Cyn i chi gynnwys dolen i wefan trydydd parti, gwnewch yn siwr fod telerau ac amodau'r wefan honno yn caniatáu i chi wneud hynny.
- 6.6. Pan fyddwch chi'n defnyddio platfform cyfryngau cymdeithasol o unrhyw fath, mae'n rhaid i chi ddarllen a chydymffurfio â'r amodau ar gyfer ei ddefnyddio.
- 6.7. Byddwch yn onest ac yn agored, ond byddwch yn ymwybodol o'r modd y gallai eich cyfraniad effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ystyried y Cyngor.
- 6.8. Y chi sy'n bersonol gyfrifol am gynnwys a gyhoeddwch mewn offer cyfryngau cymdeithasol.
- 6.9. Peidiwch â dwysáu trafodaethau tanbaid, ceisiwch fod yn gymodlon, yn barchus a dyfynnu ffeithiau er mwyn tawelu'r dyfroedd a chywiro unrhyw gamliwio.
- 6.10. Peidiwch â thrafod cydweithwyr heb iddynt gytuno i hynny ymlaen llaw.
- 6.11. Rhowch ystyriaeth bob amser i breifatrwydd pobl eraill ac osgoi trafod pynciau a allai fod yn ymfflamychol e.e. gwleidyddiaeth a chrefydd. Er ei bod yn dderbyniol i chi wneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio pleidleisiau trwy gyfrwng eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich hun, cofiwch na chaniateir hynny os ydych yn cyflwyno sylwadau ar ran y Cyngor.
- 6.12. Dylech osgoi cyhoeddi eich manylion cyswllt mewn manau lle mae'n bosib i bobl gael mynediad atynt a'u defnyddio'n eang, a chithau heb unrhyw fwriad i'r bobl hynny eu gweld, a pheidiwch byth â chyhoeddi manylion cyswllt neb arall.

7. Monitro'r defnydd o wefannau cyfryngau cymdeithasol

- 7.1. Dylai cyflogeion ac aelodau etholedig fod yn ymwybodol ei bod yn bosib y caiff unrhyw ddefnydd a wneir o wefannau cyfryngau cymdeithasol (boed hynny at ddibenion y Cyngor neu fel arall), ei fonitro ac, os gwelir achosion o weithredu'n groes i'r polisi, gellir cymryd camau yn erbyn cyflogeion dan ein Trefn Ddisgyblu ac yn erbyn cynghorwyr o dan y Cod Ymddygiad.
- 7.2. Gall camddefnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol, o dan rai amgylchiadau, fod yn drosedd neu, fel arall, gallai arwain at atebolrwydd cyfreithiol yn eich erbyn chi a'r Cyngor.
- 7.3. Yn benodol, bydd achos difrifol o uwchlwytho, postio, anfon ymlaen neu bostio dolen i unrhyw un o'r mathau canlynol o ddeunydd ar wefan cyfryngau cymdeithasol, boed hynny mewn capasiti personol neu broffesiynol, yn fwy na thebyg o gyfateb i gamymddwyn difrifol neu dorri amodau'r Cod Ymddygiad (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr);

- a) deunydd pornograffig (hynny yw, ysgrifen, lluniau, ffilmiau a chlipiau fideo o natur bornograffig neu gyffroi rhywiol);
- b) datganiad ffug neu ddifriol am unrhyw berson neu fudiad;
- c) unrhyw ddeunydd sy'n sarhaus, anllad, troseddol, gwahaniaethol, neu a allai achosi embaras i'r Cyngor, ein cynghorwyr neu ein cyflogeion;
- ch) gwybodaeth gyfrinachol am y Cyngor neu unrhyw un arall;
- d) unrhyw ddatganiad arall sy'n debygol o greu atebolrwydd (boed hynny'n droseddol neu'n sifil, p'un ai yw hynny i chi neu i'r sefydliad); neu
- dd) deunydd sy'n torri amodau hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol eraill, neu sy'n tarfu ar breifatrwydd unrhyw unigolyn.

Ymdrinnir ag unrhyw weithred o'r fath o dan y Drefn Ddisgyblu / Cod Ymddygiad.

7.4. Os bydd tystiolaeth o gamddefnyddio, caiff y Cyngor ymgymryd ag ymchwiliad manylach a fydd yn golygu archwilio a datgelu cofnodion monitro i'r rhai a enwebir i ymgymryd â'r ymchwiliad ac unrhyw dyst neu reolwr sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Os oes angen, mae'n bosib y caiff unrhyw wybodaeth o'r fath ei throsglwyddo i'r heddlu yng nghyswllt ymchwiliad troseddol.

7.5. Os sylwch chi ar gyflogeion neu aelodau etholedig yn gweithredu'n groes i'r polisi hwn wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, rhwch wybod i'r Rheolwr/Cadeirydd yn unol â Pholisi Seinio Rhybudd y Cyngor.

8. Monitro ac adolygu'r polisi hwn

8.1. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am adolygu'r polisi hwn yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion cyfreithiol ac yn adlewyrchu'r arferion gorau.

Mae rhagor o wybodaeth i aelodau etholedig, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol, ar wefan Unllais Cymru

gwefan:- http://www.onevoicewales.org.uk/OVWeb/good_practicegeneral-8204.aspx

Mabwysiadwyd 27 Gorffennaf 2020